**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Mehefin 2014**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Cyflwynwyd ymddiheuriadau ar ran y Cynghorydd Eryl Williams a fyddai'n cyrraedd yn hwyr ar gyfer y cyfarfod. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | TREFNIADAU RHANBARTHOL A LLEOL I DDIOGELU PLANT AC OEDOLION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cabinet gytuno ar strwythur y BDP rhanbarthol, (i'w adnabod fel Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru), fel y dangosir yn Niagram 2 yn Atodiad 1 yr adroddiad; i fod yn weithredol cyn gynted â phosibl.* |
| **6** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (CHWARTER 4 2013/14) | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.* |
| **7** | ADRODDIAD CANLYNIAD ARIANNOL 2013/14 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i argymell y canlynol i'r Cyngor llawn -*<br><br>*(a) y sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2013/14, a*<br><br>*(b) ymdrin â'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau fel y manylir yn yr adroddiad.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Mehefin 2014**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| 8 | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.* |
| 9 | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn cael ei nodi.* |
| 10 | GWASANAETH EIRIOLAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet -*<br><br>*(a) yn cymeradwyo comisiynu gwasanaeth eirioli yn rhanbarthol mewn partneriaeth gyda chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, a*<br><br>*(b) nodi y byddai datblygiad y gwasanaeth rhanbarthol newydd yn golygu y byddai angen proses dendro i ddechrau ym mis Gorffennaf 2014 i baratoi ar gyfer comisiynu'r gwasanaeth o fis Ebrill 2015 a bod yr opsiwn hwn hefyd yn darparu cyfle i wneud arbedion a mynd i'r afael â materion a nodwyd ym manylion y gwasanaeth.* |
| 11 | PENODI CONTRACTWR AR GYFER YR A548 PONT Y FORYD (Y BONT LAS) - CYNLLUN CRYFHAU CYNHALIAD Y DWYRAIN 2014 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo penodi'r contractwr a enwyd fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad.* |